

## beibl.net

Cofiwch fod gennym yn yr Ofalaeth gopiau o **beibl.net** i'w cael am £10 yn lle £15. Rhowch wybod i mi os ydych eis-iaiu copi.

Anfonwch e-bost os medrwch i john.cilfynydd@btinternet.com; neu os na fedrwch wneud hynny ffoniwch 01286 872390.

## Cyhoeddiadau

### YR OFALAETH

**Nos Lun, Ionawr 25:** Henaduriaeth Arfon yn Seilo Caernarfon am 7.00 o'r gloch.

**Nos Fercher, Ionawr 27:** Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yn Salem, Llanbedr y Cennin am 7.00 o'r gloch.

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Wener, Ionawr 29:** CIC am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Ionawr 31:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Ionawr 31:** Gwasanaethir am 10.00 gan Mr Dewi Jones, Pwllheli ac am 5.00 gan y Parchg Euros Jones, Llangefni. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch..

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Ionawr 24

2.00 p.m. - Parchg Trefor Jones

### Ionawr 31

2.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Hughes

### Chwefror 7

10.00 a.m.—Y Gweinidog

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Ionawr 31:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Ionawr 31:** Cynhelir Oedfa yn Ysgoldy Maesygroes am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Canon Idris Thomas, Deiniolen.

### CARMEL

**Dydd Llun, Ionawr 25:** Te Bach yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Ionawr 29:** Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Ionawr 31:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Ionawr 29:** Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



## BEIBL BYW

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Ionawr 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

#### Ionawr 31

10.00 a.m. - Mr Dewi Jones  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Euros W Jones

#### Chwefror 7

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Huw Fôn Roberts



## Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 667: Dydd Sul, 24 Ionawr, 2016

## Angen help

Mae rhyfeddod yr Efengyl yn amlwg bob dydd i'r rhai sy'n credu yn Iesu Grist. Ond mae'r rhyfeddod hwnnw'n anweledig i gynifer o bobl. Ac mae'n anodd i Gristnogion ddeall hynny ar brydiau. Sut all pobl beidio â rhyfeddu at gariad Duw yn Iesu Grist?

Tybed faint o bobl sydd heb wybod am beth y dylwn nhw chwilio ac ar beth y dylwn nhw edrych? Maen nhw wedi clywed am Iesu Grist o bosibl, ond heb ddeall pwy ydyw na beth sydd ganddo i'w gynnig. Maen nhw'n gyfarwydd â'i enw, ond heb ddeall dim amdano. Ac onid helpu pobl felly i weld yw un o'r pethau y'n gelwir fel Cristnogion i'w wneud?

Wrth geisio gweld Iesu, am beth y mae pobl i chwilio? Dyn da sy'n dangos sut i fyw yn dda? Athro doeth sy'n dysgu pethau doeth? Cyflawnwr gwyrthiau sy'n gwneud pob math o ryfeddodau? Ein braint os ydym yn credu yn Iesu Grist yw dweud beth a welwn. Ac wrth i ni ddweud beth a welwn am brydferthwch Iesu Grist, daw eraill gobeithio i sylweddoli am beth y dylwn nhw chwilio hefyd. Wrth i ni sôn am Iesu'n marw ar Galfaria er mwyn delio â'n pechodau, ac wrth i ni dystio ein bod yn ei garu am ei fod yn gyntaf wedi ein caru ni, daw eraill trwy ras i weld mai am yr Un sy'n medru maddau beiau y dylwn nhw hefyd chwilio. Er mwyn helpu pobl i weld Iesu mae angen eu helpu i weld eu hangen amdano i ddechrau.

Mercher, Gwener, Mawrth, Sadwrn a Iau. Na, dwi ddim wedi drysu trefn dyddiau'r wythnos. Dyna'r drefn y gwelir y pum planed hyn yn yr awyr dros y mis nesaf. Yn ôl a ddeallaf, mae'r planedau i'w gweld mewn un rhes ers canol yr wythnos, ac mae oddeutu deng mlynedd ers i hyn gael ei weld ddiwethaf.

A minnau'n syllu i'r awyr i geisio gweld yr olygfa anarferol, teitl un o ganeuon y Beatles a ddaeth i'm meddwl. Nid *'Across the Universe' nac 'I'll follow the Sun' na 'Here, there and everywhere'*. Ac nid *'I just don't understand'*, er y byddai honno'n gân addas â minnau'n sylweddoli nad oeddwn yn gwybod beth y dylwn ei weld. Doedd gen i ddim syniad beth yr oeddwn yn chwilio amdano, nac i ba gyfeiriad y dylwn edrych, na pha mor bell oddi wrth ei gilydd y byddai'r planedau'n ymddangos.

Ond pa gân ddaeth i'm meddwl? Yn syml iawn, *'Help'*! Mi sylweddolais fod angen help arnaf i weld. Ac roedd help i'w gael ar y We ac mewn papur newydd. Y peth cyntaf a ddysgais oedd mai yn union cyn toriad gwawr y gwelir y pum planed mewn rhes (ac nid gyda'r nos!) Pa erthyglau bynnag a ddarllenwn, rwy'n ofni mai'r unig ffordd y byddaf i'n debygol o weld yr olygfa fydd cael rhywun llawer mwy gwybodus na mi fy hun wrth fy ochr, fel y gallaf o bosibl ddweud (eto gyda'r *Beatles!*), *'Tell me what you see'*.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm

‘Adroddaf am ddatganiad yr Arglwydd. Dywedodd wrthyf, “Fy mab wyt ti, myfi a’th genhedlodd di heddiw; gofyn, a rhoddaf iti’r cenedloedd yn etifeddiaeth, ac eithafoedd daear yn eiddo i ti” (Salm 2:7–8).

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Cynhelir oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o’r gloch.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Neiniolen am 2.00 o’r gloch gan y Parchg Trefor Jones, Caernarfon. Croeso cynnes iddo, a diolch am ei wasanaeth unwaith eto.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o’r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o’r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o’r gloch gan Y Gweinidog. Cynhelir yr

oedfa yn Ysgoldy Maesygroes.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

## Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu Miss Violet Williams, 33 Adwy’r Nant, Bethesda a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ddydd Mawrth, Ionawr 19. Roedd yn aelod ffyddlon yng Ngharmel Llanllechid, ac er iddi gael blwyddyn galed o ran iechyd y llynedd llwyddodd i ddod i’r oedfa rhwng y cyfnodau a dreuliodd yn yr ysbyty.

Estynnwn ein cydymdeimlad i’w chwaer yng nghyfraith, Alwena, a’i dau nai, David a Keith a’u teuluoedd. Cynhelir y gwasanaeth angladd yng nghapel Carmel am 1.00 o’r gloch ddydd Mawrth, Ionawr 26.

## Cymdeithas Undebol

Mae Cyfarfod y Gymdeithas Undebol a oedd i fod yn Neiniolen nos yfory wedi ei ohirio.

## Henaduriaeth Arfon

Bydd Henaduriaeth Arfon yn cynnal Cyfarfod Cyhoeddus yn Seilo Caernarfon nos yfory, nos Lun, Hydref 25 i drafod ariannu y Weindogaeth o fewn Eglwys Bresbyteriaid Cymru i’r dyfodol.

Dechreuir y cyfarfod am 7.00 o’r gloch. Mae’r Henaduriaeth yn gofyn i bob un o eglwysi’r Presbyteriaid ofalu ei bod yn cael chynrychioli yno.

## Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhelir Pwyllgor Yr Ofalaeth am 7.00 o’r gloch nos Fercher, Chwefror 17.

Mentru’n gyhoeddi mai hwn fydd y dyddiad pendant ar ôl cael trafferth i gael dyddiad hwylus hyd yma.

## Derbyn aelod

Yn ystod yr oedfa yn Neiniolen nos Sul diwethaf derbyniwyd Catrin Llywelyn Gruffudd, yn aelod o eglwys Cefnywaun. Dymunwn yn dda iddi ac yn naturiol edrychwn ymlaen at barhau i gael ei gwasanaeth.

## Cyfarfod Chwarter

Taith i Lanbedr y Cennin yn Nyffryn Conwy fydd gan bwy bynnag sydd am fynd i Gyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon nos Fercher nesaf yma. Cynhelir y cyfarfod yng nghapel Salem, Llanbedr y Cennin am 7.00 o’r gloch nos Fercher, Ionawr 27.

Yn ystod y cyfarfod ceir trafodaeth dan arweiniad Ysgrifennydd y Cyfundeb, Mr Ifor Glyn Efans, fel rhan o Drafodaeth Fawr Undeb yr Annibynwyr. Dyma rai o’r cwestiynau y bydd Ifor yn eu codi.

*Beth fydd y trefniadau addoli yn eglwysi Gogledd Arfon ymhen 5 mlynedd?*

*A fydd angen ystyried dwyieithrwydd o fewn cyfarfodydd arferol ein heglwysi a’r Cyfundeb?*

*Pa drefniadau a wnawn fel Cyfundeb a / neu eglwysi unigol ar gyfer Blwyddyn Beibl Byw?*

*A fydd angen i ni ystyried cyfuno eglwysi mewn rhai ardaloedd?*

*A ddylid troi adeiladau yn ganolfannau cymunedol yn ogystal ag addoldai?*

Bydd croeso cynnes i bawb.

## Cleifion

Os gwyddoch am unrhyw un o aelodau eglwysi’r Ofalaeth sydd yn yr ysbyty neu heb fod yn dda, a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn falch o gael gwybod mor fuan â phosibl.

Diolch yn fawr iawn wrth gwrs i bawb sy’n ein helpu yn hyn o beth.

## Efe

Bydd ymddiredolwyr Efe yn cyfarfod ag ymddiriedolwyr Trobwynt yng nghapel Y Ffôr nos Fawrth yr wythnos hon er mwyn hwyluso’r cydweithio rhyngom.

## CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch am 7.00 o’r gloch nos Wener, Ionawr 29.

## Cronfa Gronyn

Pwylseisiwn eto fod *Gronyn* ar gael yn rhad ac am ddim bob wythnos i aelodau eglwysi’r Ofalaeth a phawb sydd am ei dderbyn. Ond ers rhai blynyddoedd yr ydym yn derbyn rhoddion ariannol at ei gyhoeddi oddi wrth unrhyw un sy’n dymuno cyfrannu.

Er mai ar ddechrau’r flwyddyn newydd yn unig y byddwn yn tynnu sylw at hyn, mae modd cyfrannu unrhyw bryd, beth bynnag sydd fwyaf hwylus. Pwylseisiwn unwaith eto nad ydym yn disgwyl i neb gyfrannu ond ein bod yn ddiolchgar wrth reswm am bob rhodd.

Gellir rhoi’r cyfraniad mewn amlen i’r Gweinidog os dymunwch (gan nodi ‘Gronyn’ ar yr amlen).

Y gobaith yw bod cymaint o bobl â phosibl yn derbyn *Gronyn*. Felly, os gwyddoch am rywun a fyddai’n hoffi derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw’n ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi gwybod i ni.